sgiliau llywodraeth
Cyngor Sgiliau Sector y Llywodraeth Ganolog

government skills
The Sector Skills Council for Central Government

Adeiladu sgiliau proffesiynol ar gyfer llywodraeth

Taflen wybodaeth ynglŷn â chyflenwi'r strategaeth sgiliau

Sgiliau Llywodraeth

Adeiladu sgiliau trwy weithredu casgliadol a gosod safonau proffesiynol

Sgiliau Llywodraeth – mae'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer llywodraeth ganolog wedi ymrwymo i wella sgiliau'r rhai sy'n gweithio mewn adrannau llywodraeth, y Lluoedd Arfog, a Chyrff Cyhoeddus Anadrannol (NDPBs) ar draws y Deyrnas Unedig. Ein ffocws unigol yw gwella sgiliau pobl yn ein sector fel y cynyddir cynhyrchiant ac y gallent gyflenwi gwell gwasanaeth cyhoeddus. Ar hyn o bryd mae amodau economaidd yn atgyfnerthu pwysigrwydd y gwaith hwn ac yn tanlinellu'r brys amdano.

Mae'r agenda sgiliau'n rhan integrol o allu'r Gwasanaeth Sifil. Mae Sgiliau Llywodraeth yn gweithio ar lefel strategol fel galluogydd, gan roi mewnwelediad i anghenion adrannau, ac arbenigedd mewn safonau, cymwysterau a pholisi sgiliau. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Ysgol Lywodraethu Genedlaethol a chyflogwyr ein sector er mwyn dynodi anghenion sgiliau cyffredin ac adeiladu partneriaethau cyflenwi o amgylch yr anghenion cyffredin hyn: gyda'n gilydd, gyda chyflenwyr, a gyda'r sector addysg drydyddol.

Mae adeiladu sgiliau yn y sector gyhoeddus yn hanfodol os ydym am gyflenwi gwasanaethau sy'n well i gwsmeriaid, yn well i staff, ac yn well i'r trethdalwr.

Strategaeth Sgiliau i Lywodraeth Ganolog

Yn 2008 ymgysylltwyd holl gyflogwyr allweddol y sector i gytuno ar y Strategaeth Sgiliau i Lywodraeth Ganolog gyntaf erioed. Mae'r strategaeth tair blynedd wedi gosod cyfeiriad strategol clir ynglŷn â sgiliau, a gefnogir gan yr holl adrannau ar y lefel uchaf. Mae'n cael ei gweithredu trwy bartneriaeth gyflenwi o gyflogwyr, Penaethiaid Proffesiwn a Sgiliau Llywodraeth. Ym mlwyddyn gyntaf y Strategaeth, rydym wedi cyflenwi dros 1,300 o brentisiaethau newydd, yn erbyn targed o 500, ac wedi gosod yn eu lle ddau dîm newydd i gefnogi'r ddau broffesiwn mwyaf mewn llywodraeth – cyflenwad gweithredol a pholisi – ac wedi cytuno ar gynlluniau gwaith uchelgeisiol iddynt.

> Dyma'r amser i fuddsoddi mewn sgiliau…
>
> Bydd ein gallu i gwrdd ag anghenion ein dinasyddion yn cael ei bennu gan sgiliau'n gweithlu. Yn awr yn fwy nag erioed, rydym angen gweithio gyda'n gilydd ar yr agenda sgiliau i godi safonau sgiliau.
>
> *Syr Gus O' Donnell – Ysgrifennydd y Cabinet a Phennaeth y Gwasanaeth Sifil Cartref*

Mae'r strategaeth sgiliau wedi ei seilio ar ymchwil a gynhaliwyd gyda chyflogwyr, gweithwyr a darparwyr hyfforddiant, a oedd yn dangos graddfa gref o gyffredinedd yn y materion sgiliau a wynebir. Mae'r strategaeth wedi ei hadeiladu o amgylch fframwaith cymhwysedd Sgiliau Proffesiynol ar gyfer Llywodraeth (PSG) sy'n dynodi'r sgiliau mae angen i weision sifil eu datblygu er mwyn bod yn effeithiol mewn unrhyw rôl. Mae'r Fframwaith PSG, a ddatblygwyd yn 2005, wedi creu iaith gyffredin ar sgiliau a ddefnyddir yn awr ar draws adrannau a chenhedloedd. Ceir rhagor o wybodaeth am PSG yn: www.civilservice.gov.uk/psg

Mae'r strategaeth sgiliau yn amlinellu agenda clir a rennir, gyda thri maes o weithredu casgliadol:

- Codi safonau proffesiynol, yn enwedig trwy gryfhau'r proffesiynau oddi mewn i lywodraeth, yn arbennig datblygiad y proffesiynau Cyflenwad Gweithredol a Pholisi. Gyda chymorth Sgiliau Llywodraeth bydd y proffesiynau'n datblygu safonau (a chymwysterau pan fo'n briodol) i gwrdd ag anghenion busnes.
- Sicrhau bod adrannau a phroffesiynau yn gweithredu'n gyffredin er mwyn ymdrin yn effeithiol ac effeithlon ag anghenion sgiliau cyffredin, yn cynnwys cynyddu'n sylweddol y nifer o brentisiaethau sifil.
- Ymgysylltu â'r sectorau addysg bellach ac uwch fel eu bod yn cefnogi datblygiad ein gweithlu presennol ac i'r dyfodol.

Cyflenwi yn y cenhedloedd

Mae polisi sgiliau wedi ei ddatganoli i'r llywodraethau priodol yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cyfrannodd y Gweinyddiaethau Datganoledig tuag at ddatblygiad y strategaeth ac maent yn gweithio gyda ni i'w chyflenwi yn y cenhedloedd.

Mae'n rheolwyr cyfrifon yn gweithredu fel sianel rhwng Sgiliau Llywodraeth, cyflogwyr cenedlaethol, a rhanddeiliaid. Maent hefyd yn gweithio'n agos ag adrannau Whitehall, eu hasiantaethau, a'r NDPBs i sicrhau bod y gweithredoedd sy'n deillio o'r argymhellion strategaeth sgiliau yn cael eu gosod yn eu cyd-destun ar gyfer eu gweithluoedd yn y cenhedloedd.

> Mae cyflenwi'r gorau yn safon sy'n cynyddu'n gyson a rhaid i ni bob amser ddysgu a gwella ein Sgiliau Proffesiynol.
> *Syr John Elvidge – Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth yr Alban*

Codi safonau proffesiynol

Mae Llywodraeth Ganolog yn cyflogi llawer o bobl o wahanol gefndiroedd, yn cynnwys cyfreithwyr, economegwyr, cyfathrebwyr ac arbenigwyr cyllidol. Cydnabyddir dau ar hugain o wahanol broffesiynau ar draws y llywodraeth; y ddau fwyaf sy'n cyflogi'r rhan fwyaf o'r Gwasanaeth Sifil yw cyflenwad gweithredol a pholisi.

Mae'r Strategaeth Sgiliau yn amcanu at godi safonau proffesiynol. Pan fo cyflenwad wedi ei gwblhau, bydd pob gwas sifil yn perthyn i gymuned broffesiynol, a fydd, ynghyd â strwythurau AD adrannol, â rôl bwysig mewn gyrru ymlaen ei ddatblygiad ef/hi. Dynodir y rolau ym mhob proffesiwn a, ble bo'n briodol, gosodir y gofynion safonau a chymwysterau iddynt ble nad yw'r rhain eisoes yn bodoli.

> Mae'r Strategaeth Sgiliau i Lywodraeth wedi creu newid sylweddol yn y modd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal a defnyddio data gweithlu.
> *Bernard Galton, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Pobl, Lleoedd, a Gwasanaethau Corfforaethol, Llywodraeth Cynulliad Cymru*

Mae'r dull hwn yn adeiladu ar weithrediad cychwynnol y PSG ar draws y Gwasanaeth Sifil. Yn 2008, buom yn gweithio gydag adrannau a phroffesiynau i ddatblygu fframwaith Sgiliau Craidd PSG unigol i'w ddefnyddio o dan Radd 7, y gofynnir i adrannau ei gymryd i ystyriaeth mewn fframweithiau lleol erbyn 2012. Bydd hwn yn darparu pwynt cyfeirio unigol ar gyfer sgiliau craidd ar draws y Gwasanaeth i unigolion, adrannau a darparwyr hyfforddiant.

Fel bo'r proffesiynau yn datblygu eu safonau sgiliau ar gyfer rolau, byddant angen cymorth uniongyrchol gan adrannau. Gyda dros 20 broffesiynau, gallai hyn greu rhwydwaith gymhleth o gysylltiadau. Prosiect allweddol wrth gyflenwi'r Strategaeth Sgiliau fydd creu 'map-ffordd' – fframwaith hyblyg i helpu adrannau a phroffesiynau i weithio gyda'i gilydd er mwyn ymwreiddio safonau proffesiynol i'r prosesau AD mewn ffordd gyson a syml.

Mae cymhwyster polisi newydd yn cael ei beilotio yng Ngwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon (NICS), wedi ei seilio ar y safonau galwedigaethol cenedlaethol rydym wedi eu datblygu. Datblygwyd y fenter hon mewn partneriaeth â Phennaeth Proffesiwn dros bolisi NICS, a chafodd ei sbarduno gan amrediad o ddata gweithlu pwysig a oedd yn pwysleisio'r angen i weithredu'n gyflym a phendant er mwyn gwella cynhwysedd a gallu'r proffesiwn o fewn NICS. Ers hynny sefydlwyd prosiect i ddatblygu cymhwyster peilot trwy bartneriaeth y Proffesiwn Polisi, Canolfan Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon ar gyfer Dysgu Cymhwysol, a Sgiliau Llywodraeth.

Codi safonau proffesiynol

Wrth gryfhau rôl y proffesiynau, penderfynodd yr Ysgrifenyddion Parhaol flaenoriaethu'r ddau broffesiwn mwyaf – Cyflenwad Gweithredol a Pholisi.

57% Cyflenwad Gweithredol
4% Polisi
39% Gweddill

Ffynhonnell: Ystadegau Gwasanaeth Sifil 2008 (nid yw'n cynnwys NICS).

Cydnabod sgiliau trwy gymwysterau

Gyda rhai eithriadau nodedig, ar hyn o bryd defnydd cyfyngedig a wna cyflogwyr llywodraeth o gymwysterau wrth gydnabod cyflawniadau sgiliau eu staff. Rydym yn annog cyflogwyr i ystyried buddiannau cymwysterau a gweithio gyda phroffesiynau i sefydlu dull diffiniedig tuag at gymwysterau ym mhob proffesiwn.

Buddiannau gweithlu â gwell cymwysterau:

- Galluogi cyflogwyr i adleoli staff yn gyflym ac effeithiol i gwrdd ag anghenion busnes sy'n newid mae adleoli yn fater o bwys i gyflogwyr ar hyn o bryd, yn ystod y sefyllfa economaidd bresennol
- Helpu cyflogwyr i sicrhau ansawdd eu gwasanaethau
- Gwella hygrededd cyflogwyr gyda'u rhanddeiliaid, a
- Rhoi cyfle i unigolion ddangos eu caffaeliad o.sgiliau perthnasol, trosglwyddadwy.

Adduned Sgiliau

Darparodd Adolygiad Leitch o sgiliau a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2006 yr hwb i wella sgiliau, ac amlygodd yr angen i'r SSCs chwarae rôl fwy canolog yn system sgiliau cenedlaethol y DU. Wedi eu hannog gan Sgiliau Llywodraeth, cymerodd y cyflogwyr yn ein sector yr arweiniad i weithredu argymhelliad Arglwydd Leitch ar yr Adduned Sgiliau – y cyflogwyr cenedlaethol cyntaf i wneud hynny. Yn Ebrill 2007, llofnododd 19 o adrannau Whitehall yr Adduned, yn gwneud ymrwymiad i gefnogi staff i ennill eu cymhwyster Lefel 2 cyntaf.

Gofynion yr Adduned Sgiliau yw bod gyflogwyr yn Lloegr helpu eu gweithwyr ennill sgiliau sylfaenol a chymhwyster Lefel 2 llawn (yn cyfateb i bum TGAU A* - C), pan nad oes ganddynt y rhain eisoes.

Mae Sgiliau Llywodraeth yn gweithio gyda chyflogwyr yn y sector yn annog gweithrediad parhaus y cynlluniau Adduned Sgiliau. Gwnaeth y Swyddfa Gartref gynnydd pan weithiodd y Tîm Dysgu a Datblygiad gyda 200 Benaethiaid Unedau (Band Cyflog SCS lefel 1) i ddynodi 725 o bobl heb gymhwyster Lefel 2. Maent wedi defnyddio amrediad o declynnau cyfathrebu i hyrwyddo buddiannau addunedau sgiliau er mwyn cefnogi eu staff i ennill cymhwyster.

Prentisiaethau

Mae cynllun braenaru prentisiaethau Sgiliau Llywodraeth, a gychwynnwyd ym Medi 2008, wedi annog 16 adrannau i gynnig yr hyfforddiant hwn i'w staff, yn cael ei gefnogi gan £3.5M o ariannu gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau. Mae'r cynllun braenaru wedi caniatáu i ni brofi'r hyblygrwydd newydd yn y cynnig prentisiaethau, a ddynodwyd gennym fel y prif rwystrau i'w dilyn yn y gorffennol (ee. medru cynnig prentisiaethau i aelodau staff presennol a pheidio gosod terfyn oed). Nodwedd arloesol arall oedd y defnydd o ddarpariaeth a rennir yn cynnwys nifer o gyflogwyr. Yn Llundain, daethom ag wyth adran llywodraeth at ei gilydd i rannu darpariaeth prentisiaeth trwy Westminster Kingsway College. Rydym yn chwilio am gyfleoedd pellach i gymhwyso'r model gwasanaethau a rennir o fewn y Gwasanaeth Sifil ym mhrosiect Rhanbarthau Lloegr ac rydym yn gweithio'n weithredol gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig i weld sut y gellir cynyddu'r defnydd o brentisiaethau yn y sector.

Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Yr Alban i ddyblu eu cynhwysedd i gynnig Prentisiaethau Modern.

Prentisiaeth mewn Gwasanaeth Cwsmer

Mae Sasha yn 23 ac yn gweithio llawn amser yn y Gwasanaeth Pensiwn yn y Gogledd Ddwyrain, yn delio ag ymholiadau tanwydd gaeaf. Ymgymerodd â'r Brentisiaeth mewn Gwasanaeth Cwsmer tra'n gweithio mewn tîm teleffoni. Meddai:

"Buaswn yn argymell prentisiaeth oherwydd mae'n adnewyddu sgiliau yr ydych o bosib wedi eu hanghofio ac mae'n gymhwyster cydnabyddedig. Mae'n waith caled ond mae hefyd yn bleser a gwerth chweil."

"Gellwch ddefnyddio'r stwff a wnaethom ar sail dydd i ddydd. Mae fy swydd yn cynnwys defnyddio ystadegau a nawr rwyf yn gallu gwneud mwy o synnwyr ohonynt, tra o'r blaen nid oeddwn yn hoffi eu defnyddio. Mae'r cyflwyniad a roddais wedi fy helpu yn fy swydd gan fod gen i fwy o hyder – ers hynny rwyf wedi paratoi a chyflenwi hyfforddiant."

Roedd prentisiaeth Sasha yn cynnwys:

- dau Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaeth Cwsmer a Gweithrediad Canolfan Cyswllt
- sgiliau allweddol mewn cyfathrebu a chymhwyso rhifau.

Diploma mewn Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae'r Diploma 14-19 yn fath newydd o gymhwyster i bobl ifanc. Mae cynnwys y dysgu wedi ei ddylunio mewn partneriaeth â chyflogwyr sector gan gyfuno sgiliau a gwybodaeth hanfodol, profiad ymarferol, a dysgu a gefnogir gan gyflogwyr, er mwyn paratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith neu Addysg Uwch (yn dilyn cwblhau Diploma Uwch). Mae'r cymwysterau hyn yn lledaenu'r dewisiadau dysgu sydd ar gael i bobl ifanc ac maent wedi eu seilio ar egwyddor "dysgu cymhwysol" yn hytrach na'r llwybrau dysgu academaidd neu alwedigaethol pur sydd ar gael ar hyn o bryd.

Fel aelod o'r Bartneriaeth Datblygu Diploma, mae Sgiliau Llywodraeth wedi penodi staff polisi sgiliau profiadol i gynorthwyo datblygiad ac i roi mewnwelediad strategol i Lywodraeth Ganolog. Bydd cyflogwyr yn ein sector yn gweld buddiannau gwirioneddol, gan leihau costau recriwtio a hyfforddi staff, fel bo'r graddedigion Diploma yn dod i mewn i'r gweithlu ar ôl gwneud dewis gwybodus a gyda lefel sgiliau hanfodol uwch. Bydd y Diploma mewn Gwasanaethau Cyhoeddus ar gael mewn rhai ysgolion a cholegau o fis Medi 2010, a thrwy Loegr o fis Medi 2013.

Angen gweithredu casgliadol ar sgiliau cyffredin

Trwy weithio gyda'n gilydd i gwrdd ag anghenion datblygu eu staff, gall adrannau a'r Lluoedd Arfog arbed arian, cyflawni gwell ansawdd o hyfforddiant ac annog cyfnewid rhwng staff. Dynododd y sail dystiolaeth ar gyfer y strategaeth sgiliau nad oedd cyflogwyr yn y sector yn ennill y buddiannau y gallai dull cyffredin o gaffael eu sicrhau, er bod ganddynt lawer o anghenion sgiliau cyffredin.

Yn dilyn cytundeb arweinwyr hŷn mewn adrannau yn Ionawr 2009 ar rôl newydd i'r Ysgol Lywodraethu Genedlaethol, mae Sgiliau Llywodraeth yn gweithio'n agos â hwy ac adrannau a phroffesiynau i hyrwyddo comisiynu cyffredin a chaffael D&D. Bydd hyn yn cynnwys 'cwricwlwm craidd' i'r Gwasanaeth Sifil, a gyflenwir trwy'r Ysgol Lywodraethu Genedlaethol.

Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, rydym yn cynnal nifer o ddadansoddiadau anghenion hyfforddiant trawsadrannol ar wahanol feysydd sgiliau er mwyn dynodi meysydd ble gall adrannau gomisiynu D&D newydd gyda'i gilydd, fel un cyflogwr. Bydd y dadansoddiad hwn yn gymorth i ddynodi anghenion sgiliau a bylchau yn ein D&D, yn ogystal ag amlygu ble bo gan adrannau ofynion tebyg a ble buasent felly'n cael budd o weithio gyda'i gilydd. Rydym eisoes wedi gweithio mewn amrediad o feysydd yn cynnwys sgiliau polisi, sgiliau cynorthwywyr personol (PA), a'r defnydd o raddau Meistr mewn llywodraeth.

Adrannau'n rhannu dysgu & datblygiad

Rydym hefyd yn annog adrannau i ystyried p'un a allai dysgu & datblygiad (D&D) presennol adrannau eraill gwrdd â'u hanghenion hwy, cyn caffael D&D newydd, gan gael adrannau i ganolbwyntio'n arbennig ar feysydd ble gallent wneud arbedion mawr trwy weithio gyda'i gilydd. Mae adrannau a gweinyddiaethau datganoledig wedi gwneud cynnydd da mewn gwneud eu D&D ar gael i eraill, ac mae nifer o adrannau a gweinyddiaethau datganoledig yn rhannu eu cyrsiau D&D yn weithredol ar draws y llywodraeth.

Mae cyrsiau a rennir yn cynnwys:
- Cwrs Gweithio gyda Gweinidogion a'r Senedd
- Cyrsiau hyfforddiant iaith
- Amrywiaeth
- Sgiliau ymarferol ar gyfer cyllidebu

Cydweithio ar hyfforddiant

Cydweithiodd dwy ar bymtheg o adrannau a Gweinyddiaethau Datganoledig (DAs) er mwyn edrych ar anghenion sgiliau ar gyfer y proffesiwn polisi. Dangosodd y canlyniadau fod mwy o gyffredinedd rhwng adrannau na gwahaniaethau, a thrwy weithio gyda'i gilydd mae sgôp ar gyfer dull traws llywodraeth o ymdrin â chaffael D&D. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar y Proffesiwn Polisi i weld sut y gallwn symud y gwaith hwn ymlaen.

Graddau Meistr: *gweithio gyda'n gilydd i gaffael ar y cyd*

Amlygodd y dadansoddiad anghenion hyfforddiant yr awch am ddull mwy strategol o noddi'r cyrsiau Meistr mewn Busnes a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar draws y llywodraeth. Mynegodd 12 o adrannau a DAs ddiddordeb mewn datblygu fframwaith caffael ar gyfer y cymwysterau hyn. Trwy gydweithio, cydnabyddir y gall ymgymryd â chaffael ar y cyd helpu sicrhau ffitrwydd i bwrpas a gwerth am arian yn y maes hwn o addysg uwch.

Ymgysylltu â'r sector addysg

Mae trydedd elfen y strategaeth sgiliau yn amcanu at wireddu'r potensial rhwng cyflogwyr llywodraeth a'r sectorau Addysg Bellach ac Uwch.

Mae Sgiliau Llywodraeth yn gweithio ar nifer o brosiectau peilot i ddangos ymatebolrwydd gwell darparwyr AU/AB i anghenion y Llywodraeth. Rydym wedi sefydlu clymblaid o gyflogwyr i weithio ar gaffael graddau Meistr a llenwi bwlch mewn hyfforddiant iaith arbenigol. Yn y pen draw, byddwn yn adeiladu perthynas strategol tymor hir gyda'r sectorau addysg uwch a phellach, er mwyn datblygu persbectif cyflogwr gwybodus, ac i helpu'r sector Gwasanaeth Sifil weithio'n gasgliadol er mwyn mynegi a boddhau eu hanghenion sgiliau.

Mae'r Gwasanaeth Sifil yn gwario £500 miliwn+ bob blwyddyn ar ddysgu a datblygiad. Gall adrannau foddhau anghenion sgiliau cyffredin, prynu cynnyrch dysgu a datblygiad gyda'i gilydd, a chynhyrchu arbedion.

Ffynhonnell: Arolwg Cyflogwyr Sgiliau Llywodraeth 2007 a'r Strategaeth Sgiliau i Lywodraeth Ganolog

Ffeithiau allweddol am ein sector

Mae oddeutu 800,000 o bobl yn gweithio yn ein sector,

gyda 80% yn gweithio yn un o bum phrif adran, y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Cyllid a Thollau, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

• Mae 85% o weithwyr yn y sector Llywodraeth Ganolog wedi cymhwyso i Lefel 2 neu uwch o gymharu â 70% o weithlu'r DU.

• Mae'r mwyafrif o weithwyr sector Llywodraeth Ganolog yn derbyn rhwng dau a phum diwrnod o ddysgu a datblygiad bob blwyddyn.

• Cytunodd 19% o'r cyflogwyr sector Llywodraeth Ganolog a arolygwyd fod y bwlch rhwng y sgiliau roeddynt eu hangen a'r sgiliau a oedd ar gael o fewn eu gweithlu yn tyfu.

• Mae gan chwarter gweithwyr sector Llywodraeth Ganolog gymhwyster proffesiynol cydnabyddedig perthnasol.

• Mae un rhan o bump o'r Gwasanaeth Sifil yn gweithio'n rhan-amser ac mae oddeutu 8.4% o'r Gwasanaeth Sifil yn dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig, o'i gymharu â 7% o'r economi cyfan.

Cysylltwch â ni ar:
info@government-skills.gsi.gov.uk
Neu ymwelwch â'n gwefan am fanylion eich rheolwyr cyfrifon.
www. government-skills.gov.uk